**Llandrindod Wells Church in Wales Community Primary School, Trefonnen**
**Ysgol Gymunedol Yr Eglwys Yng Nghymru, Trefonnen**
Trefonnen, Llandrindod Wells, Powys LD1 5EP
Ffôn/Telephone: 01597 822190
Ffacs/Fax 01597 823758
E-bost/E-mail: office@trefonnen.powys.sch.uk

**Caring, inspiring, achieving together**
**Gofalu, ysbrydoli, cyflawni gyda'n gilydd**

---

Ebrill 13eg 2016

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

**Ddydd Iau, Ebrill 21ain**, mae Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) yn cynnig i'w aelodau fynd ar streic. Nid yw'r weithred hon yn erbyn yr ysgol yn benodol ond mae'n rhan o weithredu diwydiannol Powys wedi ei drefnu gan yr undeb, yn ymwneud â phwysau gwaith a chau ysgolion.

Y tro hwn mae'r streic yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau yma yn Nhrefonnen. Mae hi'n anghyffreithlon i'r ysgol ddefnyddio Athrawon Cyflenwi, neu athrawon sydd ddim yn streicio i wneud gwaith yr athrawon sydd ar streic, felly, mae'r her i gynnal diwrnod ysgol arferol yn sylweddol. Rydyn ni wedi cynnal asesiad risg ar gyfer yr ysgol, ac er mwyn sicrhau diogelwch a lles ein plant, mae'r Bwrdd Llywodraethol a minnau yn teimlo bod yn rhaid **cau** yr ysgol gyfan am y diwrnod hwnnw.

Os penderfynir peidio cynnal y streic, hyd yn oed ar y funud olaf Ddydd Mercher, Ebrill 20fed , yna bydd yr ysgol ar agor fel arfer. Gobeithiwn, wrth i ni dynnu eich sylw at y sefyllfa hon, y byddwch yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol ar eich cyfer chi a'ch teulu.

Gawn ni i gyd obeithio y bydd y rhesymau dros y gweithredu diwydiannol hwn yn cael eu datrys mor fuan ag y bo modd.

Yr eiddoch yn gywir,

Mrs J Stuart-Lyon
Pennaeth